Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid**
**ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sydd wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

**Sylwadau cyffredinol**

Yn gyffredinol, cefnogaf y cynigion a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori. Er na fyddai hi'n briodol i mi fynegi barn ar drefniadau llywodraethant Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), gwelaf yn sicr y manteision o alluogi SAC i fabwysiadu'r dull mwy hyblyg o godi ffioedd a threfnu gwaith cytundeb. Croesawaf yn enwedig y cynigion i newid y gofynion a osodir ar y Cynulliad gan y ddeddfwriaeth bresennol i ymgynghori â'r Prif Weinidog o ran:

- penodi Cadeirydd SAC;
- y trefniadau o ran tâl cydnabyddiaeth y Cadeirydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC); a
- dod â phenodiad y Cadeirydd i ben.

Credaf y bydd y newidiad arfaethedig yn cryfhau annibyniaeth y rolau hyn a'i fod yn addas o ystyried perthynas atebolrwydd agos rhwng ACC a'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Sylwadau cloi**

Rwy'n hyderu y byddwch chi yn gweld fy sylwadau yn ddefnyddiol.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombudsman.wales).



**Nick Bennett**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**Chwefror 2020**

**********************************************************************************